PRIFYSGOL CYMRU ABERTAWE
UNIVERSITY OF WALES SWANSEA

AUTUMN 2003 - issue 6

CADWYN

ALL WALES CENTRE OF EXCELLENCE *for* GOVERNOR TRAINING AND RESEARCH

# NOT SO DIFFERENT?

## *The experience of governing a state and an independent school*

***Have you ever wondered what it would be like to be a governor at an independent boarding school? In this article Rob Smith, who has been a governor of both an independent and a state school, compares the two roles.***

For about the past 15 years I have been a governor of two outwardly very contrasting schools – Notley High School, an 11-16 mixed comprehensive technology college in Braintree, Essex, with 1,150 pupils, and Framlingham College, formerly a direct grant school and now a mixed independent, predominantly boarding, school in Suffolk. It also has a junior school, so it takes children from 3-18, and has 750 pupils (including the junior section).

The revolution in governing bodies in state schools was just beginning when I started at Notley, and at each meeting it seemed we were given extra powers and responsibilities. This caused a great deal of consternation at the time, as we had to work through some very difficult situations, relying on instinct and luck as much as anything else.

There was no corresponding revolution in the governance of independent schools, but in practice the demands of the market place have had a similar result – governors are now required to be much more accountable for what they do and consequently the governors at Framlingham are much more aware of what is happening in the school and of educational issues generally than they were when I started.

So, although the two schools are very different, many of the problems are common to both, and often the contrasts result from one school being a boarding school and the other a day school, rather than one being a state school and the other independent.

So what are the similarities and differences?

- **Membership of the governing body**

  Notley is required to have a set number of parent, teacher, staff, local authority and co-opted governors. The Head is entitled to be a governor.

  Framlingham's governing body has much fewer set requirements and, in practice, current parents are rarely members. Employees of the school are not permitted to be governors because of charity law. At least seven governors are appointed by the former pupils' society.

- **Governors meetings**

  Both schools have one business meeting per term. At Notley there is usually a second meeting where a current wider educational issue or an issue that is particularly relevant to the school is looked at in detail. For example, in October the previous year's GCSE results are thoroughly analysed at a separate meeting.

- **Committees**

  At Notley there are four committees: Finance and Premises; Curriculum; Personnel and Pupils; and Community. Each committee is made up of five or six governors (many governors are on more than one committee) and meets either once or twice a term, normally in the evening.

  At Framlingham there is only one committee, the Finance and General Purposes committee (F&GP). This committee has seven governors on it and meets twice each term during the day. Those Framlingham governors who sit on the F&GP tend to know a great deal about the running of the school, but other governors who are not on it can feel remote from what is going on. At Notley most governors are more actively involved. However, there is a much greater turnover of governors at Notley – parents come to the end of their allotted period, staff move on, and people move with their jobs. The governors at Framlingham generally remain on the board much longer, so that the governors' collective experience of the school is in some ways greater, although the training available to independent school governors is nothing like as extensive as it is in the state sector, and therefore the knowledge of education issues is probably not so great.

- **Money**

  You might expect the debates about money to be conducted on completely different levels. In fact, the scope for manoeuvre in financial matters seems remarkably similar. Once you have made sure the staff have all been paid, there is very little left over to do all the other things you would like to do! True, at

Continued overleaf

# NOT SO DIFFERENT?

## *The experience of governing a state and an independent school* Continued

Notley we do not have to agonise over the rate of increase of school fees, but the decision to raise the bus fare for parents whose children use the school bus can take just as long and produce very similar cries of anguish.

- **Chairman**
  In both schools, the Chairman's role is pivotal. In particular, the relationship between the Chairman and the Head is probably the most critical of all and equally important for the health of both schools.

- **Appointing staff**
  At Framlingham, the only appointments in which governors participate are for the Head, Deputy Heads and Bursar. At Notley governors are more extensively involved, albeit still at a relatively senior level.

In general, I think that there is much more in common than in contrast between the way in which the two governing bodies work. I think this is largely due to the fact that to be a governor you have to believe in the importance of education and want to have some small influence in trying to make the educational experience in "your" school better. The range of experience governors bring to the two schools tends to be different, but collectively they behave very similarly in ***providing external support and guidance to the hard-pressed men and women who have the task of the day-to-day running of two outwardly very different but, deep down, rather similar schools.***

---

## Governors Conference March 2003

The second national conference for school governors in Wales was held at the Metropole Hotel, Llandrindod Wells on 13 and 14 March 2003. The Conference was organised by the Centre, and made possible as a result of funding from the Welsh Assembly Government. The theme of the Conference was *How are we doing? Governing body self-evaluation and governing bodies' evaluation of their schools,* and over 90 delegates attended.

Susan Lewis, Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales, opened the Conference, speaking on the vital role governing bodies can play in monitoring and evaluating the work of schools.

The delegates spent the remainder of the afternoon in syndicate groups, discussing governing bodies' evaluation of their schools, and governing body self-evaluation.

On the following day, Catherine Burt, education consultant, opened the proceedings with a lively presentation on the importance of governing body self-evaluation in raising school achievement. This was followed by an *Any Questions* Forum, with delegates invited to ask questions of the panel which consisted of Catherine Burt, a Director of Education, and a Comprehensive School Headteacher.

From the feedback we received, it is clear that the delegates found the conference interesting, informative and enjoyable. A full report of the Conference has been produced – please contact the Centre if you would like us to send you a copy. The report is also available on our website at
www.swan.ac.uk/education/governors/Conferences.htm

## DATE FOR YOUR DIARY…

### Friday 5 March 2004

***Annual Conference***
***for School Governors in Wales***
***Llandrindod Wells***

*Theme: Where are we going?*
*The Role of Governors in*
*Strategic Planning and Target Setting*

*Invitations will be issued via LEA Governor Support Officers – contact the Centre for more details*

---

## Congratulations

**Congratulations to John Lewis who has been awarded the MBE for his services to School Governance in Pembrokeshire including his current position as Chair of Governors of Lamphey C P School. Mr Lewis is actively involved in working in partnership with the Education & Community Services Department of Pembrokeshire County Council in developing educational policy and supporting documentation.**

# Keeping up to date …

***Keeping up to date is vital for anyone involved with the ever-changing world of education. This is the first of a series of columns by Madeleine Rogerson, Senior Librarian at the Department of Education, University of Wales Swansea, intended as a brief guide to the complex maze of information about education.***

## …with UK news …

The Times Educational Supplement and Times Higher Education Supplement provide excellent starting points for current education news. Both are published weekly and have websites at:

**TES** **http://www.tes.co.uk**
**THES** **http://www.thes.co.uk**

A useful feature of the TES site is the free searchable database of news stories back to October 1994.

Daily newspapers, such as the Guardian (especially the education supplement published each Tuesday) will also provide coverage of education matters.

The BBC news site at http://news.bbc.co.uk also features an education section and holds a searchable archive of news material.

## …with government press releases …

Most government initiatives and reports appear in the press. In Wales news headlines and press releases (archived since June1999) are available via the National Assembly Government's Training and Education website http://www.learning.wales.gov.uk. The Department of Education and Skills site also contains a press notice database at http://www.dfes.gov.uk/pns/newslist.cgi

## …with international news …

Worldwide newspapers provide a gateway to thousands of international articles at http://www.worldwidenewspapers.com. The news section of Eurydice (http://www.eurydice.org) gives access to information and press releases on education at a European level.

**Use the links given at**
**http://www.bubl.ac.uk/uk/newspapers.htm**
**to access national and international newspapers and other news sources**

# Research News

As always, there is a lot of activity in this area at the Centre.

We have just completed the first section of research on governing body input to school improvement, and we intend to follow this up by collecting examples of good practice which might be shared.

The Welsh Assembly Government has recently commissioned the Centre to undertake research into training guidelines for school governors, and also the training of governing body clerks.

Finally, work is ongoing on the production of a guide for school governors and managers on Monitoring and Evaluation.

**Steve Gullick** *Project Director*

---

# CONTACT US …

… for more information on the Centre and its activities, or with any comments you wish to make – we should be very pleased to hear from you.

**All Wales Centre of Excellence for Governor Training and Research**
Department of Education, University of Wales Swansea, Hendrefoelan, SWANSEA SA2 7NB
Tel: 01792 518609 / 518610 Fax: 01792 518616
Email: S.E.Gullick@swan.ac.uk or K.J.Evans@swan.ac.uk

www.swan.ac.uk/education/governors

# Conversations

**Janet Jones is the North Wales Field Support Officer for Governors Wales. Here, she talks to Centre Director Steve Gullick about her role.**

**SG** How long have you been a Field Officer with Governors Wales, Janet?

**JJ** Well, I started in March 2001, so it would be almost 2 years.

**SG** Apart from your work as a Field Officer, have you any other experience of governing bodies?

**JJ** I've been a governor for over 20 years at our local primary school, first as a parent governor, then co-opted, and for the last 10 years I've been Chairperson. I was also a school secretary for 16 years in two primary schools and in both schools I was also clerk to the governing bodies.

**SG** So you've seen governing bodies working from a number of different positions – parent governor, co-opted governor, chair and clerk.

**JJ** Yes, and it's proved useful in that it helps me understand where governors are "coming from" when they put forward their opinions and also how the school management sees things.

**SG** Now back to your present job, can you describe some of the things you do as a Field Officer for Governors Wales?

**JJ** The original intention was that Field Officers would help set up and support governor associations throughout Wales, and this remains our core activity. Both Anne Robertson (Governors Wales' Field Officer for South Wales) and I try to attend all the governor association meetings in our areas when we can, as we regard it as so important. Over time, though, our role has certainly grown. Last year, between us Anne and I were involved with over 50 organisations in addition to governor associations. At conferences and meetings of groups as diverse as Chwarae Teg and the Narrowing the Gap task group, we'd regularly be putting forward the views of Welsh governors.

We also help to organise two Governors Wales conferences every year, and help staff our stands at the Royal Welsh Show, the Urdd Eisteddfod and the National Eisteddfod. And although Jane Morris runs our Helpline, we work as a team and are very much part of the work of developing the Helpline and our website. Anne and I have also been involved in the production of our first newsletter.

Finally, I've been closely involved with the Governor Accreditation scheme which we are piloting with LEAs – in North Wales Wrexham, Gwynedd and Ynys Mon are currently participating.

**SG** Which parts of your job do you find most rewarding?

**JJ** Well, the job is all about communication, so the most enjoyable part is meeting and talking to governors, and finding out how governing bodies work. I'm also lucky in that I work with a really good team at Governors Wales, so that's a real plus as well.

**SG** And which parts do you enjoy least?

**JJ** Two things really "get to me". First of all, I get frustrated by how long it takes to change things. I hate attending long meetings where there's a lot of talking but nothing seems to happen as a result of it, nothing moves forward. I suppose I just like getting things done.

I'm also infuriated by cynicism. You know the sort of thing, when someone comes up with a suggestion and the response is "That'll never work" or "What's the point of changing? We've always done things this way." To be cynical and destroy enthusiasm is terrible, because I really believe that keen, committed people can change things for the better.

**SG** You've obviously a lot of experience of working with school governors, Janet, so what do you think are the three most important governor roles?

**JJ** Can I cheat and stretch the list because I actually believe that there are four vital roles that governors perform – and I think the four are equally important.

First of all, the governing body helps provide continuity for a school. I know this is also provided by long-serving school staff, but governors who have been in office for a long time represent a different type of tradition: they represent the community aspect, they show clearly that the school is a part of the community, and I don't think you'd get that community viewpoint if governing bodies didn't exist.

Secondly, the governing body should be a channel for the vision of the school. Governors should be very clear about what the school stands for and where it's going. If they have a full understanding of these things, then they are able to make sure, with the Head and Senior Management Team, that the vision for the school is kept in the forefront of everything they do.

Next, a good governing body should provide objective counsel to the Head, as governors are not so close to day-to-day school management. This means they are in an ideal position to look beyond the immediate effects of a new policy or initiative and help the Head and Senior Management Team consider wider and longer-term implications of change. It really is vital that a Headteacher should be able to use the governing body as a sounding board in this way.

Finally, I think it's important that governors take a broader and more informed view of educational issues than simply concentrating all their time and efforts on their own school. If they don't have this wider knowledge then, put quite simply, how can they see how their school fits into the bigger picture and, more pertinently, how can they judge how well their school is doing?

Llywodraethwyr Cymru Governors Wales

**Governors' Helpline**

*Telephone:*
0845 602 0100

is the helpline for governors of schools in Wales.

Operated by Governors Wales the helpline will provide advice on a range of issues to governors in all parts of Wales.

# Sgyrsiau

**Mae Janet Jones yn Swyddog Cefnogi Maes Gogledd Cymru gyda Llywodraethwyr Cymru. Yma, mae'n siarad â Steve Gullick, Cyfarwyddwr y Ganolfan, am ei rôl.**

**SG** Ers pryd rydych chi wedi bod yn Swyddog Maes gyda Llywodraethwyr Cymru, Janet?

**JJ** Wel, fe ddechreuais i ym mis Mawrth 2001, felly mae hi bron yn ddwy flynedd a hanner.

SG Heblaw am eich gwaith fel Swyddog Maes, oes profiad arall gennych chi o gyrff llywodraethu?

**JJ** Rwy' wedi bod yn llywodraethwr am dros 20 mlynedd yn ein hysgol gynradd ni, fel rhiant-lywodraethwr yn gyntaf, yna wedi'i fy nghyfethol, ac am y 10 mlynedd diwethaf rwy' wedi bod yn Gadeirydd. Roeddwn i hefyd yn ysgrifenyddes ysgol am 16 mlynedd mewn dwy ysgol gynradd ac yn y ddwy ysgol roeddwn i hefyd yn glerc i'r cyrff llywodraethu.

**SG** Felly rydych chi wedi gweld cyrff llywodraethu ar waith o sawl ongl – rhiant-lywodraethwr, llywodraethwr wedi'i gyfethol, cadeirydd a chlerc.

**JJ** Ydw, ac mae wedi bod yn ddefnyddiol o ran bod hynny'n fy helpu i ddeall cefndiroedd llywodraethwyr wrth iddyn nhw gyflwyno eu barn a hefyd fel mae rheolwyr yr ysgol yn gweld pethau.

**SG** Nawr 'nôl i'ch swydd bresennol, allwch chi ddisgrifio rhai o'r pethau rydych chi'n eu gwneud fel Swyddog Maes dros Llywodraethwyr Cymru?

**JJ** Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai Swyddogion Maes yn helpu i sefydlu a chefnogi cymdeithasau llywodraethwyr ledled Cymru, a dyma ein prif weithgarwch o hyd. Mae Anne Robertson (Swyddog Maes Llywodraethwyr Cymru yn Ne Cymru) a finnau'n ceisio mynychu holl gyfarfodydd cymdeithasau llywodraethwyr yn ein hardaloedd ni pan fedrwn ni, gan ein bod yn ystyried hyn yn bwysig iawn. Dros gyfnod, serch hynny, mae ein rôl ni'n sicr wedi tyfu. Y llynedd fe fuodd Anne a finnau rhyngom ni'n ymwneud â dros 50 o gyrff yn ogystal â chymdeithasau llywodraethwyr. Mewn cynadleddau a chyfarfodydd grwpiau mor wahanol â Chwarae Teg a thasglu Lleihau'r Bwlch/Narrowing the Gap, fe fyddem yn gyson yn cyflwyno barn llywodraethwyr yng Nghymru.

Rydym hefyd yn helpu i drefnu dwy gynhadledd Llywodraethwyr Cymru bob blwyddyn, a helpu staffio ein stondinau yn Sioe Frenhinol Cymru, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ac er mai Jane Morris sy'n rhedeg ein Llinell Gymorth, rydym ni'n gweithio fel tîm ac rydym ni'n sicr yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r Llinell Gymorth a'n gwefan. Mae Anne a finnau hefyd wedi bod wrthi'n cynhyrchu ein cylchlythyr cyntaf.

Yn olaf, rwy wedi bod yn ymwneud cryn dipyn â'r cynllun Achredu Llywodraethwyr yr ydym wrthi'n rhedeg rhaglen beilot ohono gydag AALlau – yng Ngogledd Cymru mae Wrecsam, Gwynedd ac Ynys Môn yn cymryd rhan ar hyn o bryd.

**SG** Pa rannau o'r gwaith sy'n rhoi'r boddhad mwyaf ichi?

**JJ** Wel, cyfathrebu yw hanfod y swydd, felly'r rhan sy'n rhoi'r boddhad mwyaf yw cwrdd â llywodraethwyr a siarad â nhw, a darganfod sut mae cyrff llywodraethu'n gweithio. Rwy' hefyd yn lwcus yn yr ystyr fy mod i'n gweithio gyda thîm arbennig o dda yn Llywodraethwyr Cymru, felly mae hynny'n beth da hefyd.

**SG** A pha rannau sy'n rhoi llai o foddhad ichi?

**JJ** Mae dau beth wir yn fy ngwylltio. Yn gyntaf, rwy'n mynd yn rhwystredig o weld cymaint o amser mae'n ei gymryd i newid pethau. Rwy'n casáu mynychu cyfarfodydd hir lle mae llawer o siarad ond does dim fel petai'n digwydd o ganlyniad iddo fe, does dim byd yn symud ymlaen. Mae'n debyg mai hoffi cyflawni pethau rwy'.

Mae sinigiaeth hefyd yn codi 'ngwrychyn i. Fe wyddoch y math o beth, pan fydd rhywun yn awgrymu rhywbeth a'r ymateb yw "Fydd hynny byth yn gweithio" neu "Beth yw pwynt newid? Fel hyn rydym ni bob amser wedi gwneud pethau." Mae bod yn sinigaidd a dinistrio brwdfrydedd yn ofnadwy, achos rwy' wir o'r farn y gall pobl frwd, ymroddedig newid pethau er lles.

**SG** Mae'n amlwg fod gennych chi lawer o brofiad o weithio gyda llywodraethwyr ysgol, Janet, felly beth yn eich barn chi yw tair rôl bwysicaf llywodraethwyr?

**JJ** Gaf i dwyllo a helaethu'r rhestr achos rwy'n digwydd credu bod pedair rôl allweddol gan lywodraethwyr - a rwy'n credu bod y pedair lawn cyn bwysiced â'i gilydd.

Yn gyntaf, mae'r corff llywodraethu'n helpu rhoi dilyniant i ysgol. Rwy'n gwybod bod staff sy'n gwasanaethu am gyfnod hir hefyd yn gwneud hyn, ond mae llywodraethwyr sydd wedi bod yn eu swydd am gyfnod hir yn cynrychioli traddodiad o fath gwahanol: maen nhw'n cynrychioli'r agwedd gymunedol, maen nhw'n dangos yn eglur fod yr ysgol yn rhan o gymuned, a dwy' ddim yn credu y byddech chi'n cael safbwynt y gymuned fel hyn petai cyrff llywodraethu ddim yn bod.

Yn ail, dylai'r corff llywodraethu fod yn gyfrwng i weledigaeth yr ysgol. Dylai'r llywodraethwyr fod yn glir iawn o ran dros beth mae'r ysgol yn sefyll ac i ble mae'n mynd. Os ydyn nhw'n deall y pethau hyn yn llawn, yna gallan nhw sicrhau, ynghyd â'r Pennaeth a'r Tîm Rheoli Uwch, bod y weledigaeth i'r ysgol yn cael ei chadw'n flaenllaw ym mhopeth maen nhw'n ei wneud.

Nesaf, dylai corff llywodraethu da roi cyngor gwrthrychol i'r Pennaeth, gan nad yw llywodraethwyr yn ymwneud cymaint â rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn golygu eu bod nhw mewn sefyllfa ddelfrydol i edrych y tu hwnt i effeithiau uniongyrchol polisi neu fenter newydd a helpu'r Pennaeth a'r Tîm Uwch Reoli i ystyried goblygiadau ehangach a mwy hirdymor y newid. Mae hi wir yn hanfodol fod Pennaeth yn gallu defnyddio'r corff llywodraethu fel clust i wrando yn y modd yma.

Yn olaf, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i lywodraethwyr fabwysiadu barn ehangach a mwy gwybodus am faterion addysgol yn hytrach na chanolbwyntio eu hamser a'u hymdrechion ar eu hysgol eu hunain. Os nad yw'r wybodaeth ehangach yma ganddyn nhw, yna, yn syml iawn, sut gallan nhw weld sut mae eu hysgol nhw'n rhan o'r darlun mwy, ac yn fwy perthnasol, sut gallan nhw farnu pa mor llwyddiannus yw eu hysgol?

Llywodraethwyr Cymru Governors Wales

## Llinell Gymorth Llywodraethwyr

### Ffôn: 0845 602 0100

yw'r linell gymorth newydd ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru.

Mae'r linell gymorth a weithredu'r gan Lywodraethwyr Cymru yn darparu cyngor ar ystod o faterion I lywodraethwyr ar draws Cymru.

# HEB FOD MOR WAHANOL?

*Y profiad o fod yn llywodraethwr yn un o ysgolion y wladwriaeth ac ysgol annibynnol*

oes rhaid inni ymboeni ynglyˆn â i ba raddau y dylem gynyddu ffioedd yr ysgol, ond gall y penderfyniad i godi pris y bws i rieni y mae eu plant yn defnyddio bws yr ysgol gymryd lawn cymaint o amser ac achosi llawn cymaint o ochneidio mewn poen.

- **Cadeirydd**
  Yn y ddwy ysgol, mae rôl y Cadeirydd yn allweddol. Yn arbennig, mae'n debyg mai'r berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Pennaeth yw'r fwyaf tyngedfennol o'r cyfan a lawn cyn bwysiced i iechyd y ddwy ysgol.

- **Penodi staff**
  Yn Framlingham, yr unig benodiadau y mae'r llywodraethwyr yn ymwneud â nhw yw swyddi'r Pennaeth, y Dirprwy Benaethiaid a'r Bwrsar. Yn Notley mae'r llywodraethwyr yn ymwneud yn fwy helaeth, er bod hynny'n dal ar lefel gymharol uchel.

Yn gyffredinol, rwy'n credu bod llawer mwy'n gyffredin nag sy'n wahanol yn y ffordd y mae'r ddau gorff llywodraethu'n gweithio. Rwy'n credu bod hyn yn bennaf oherwydd bod rhaid ichi gredu ym mhwysigrwydd addysg i fod yn llywodraethwr a'ch bod chi eisiau dylanwadu mewn ffordd fach wrth geisio gwneud y profiad addysgol yn "eich" ysgol yn well. Mae'r amrywiaeth o brofiadau y mae llywodraethwyr yn dod gyda nhw i'r ddwy ysgol yn tueddu i fod yn wahanol, ond gyda'i gilydd maen nhw'n ymddwyn yn debyg iawn wrth roi cymorth a chyfarwyddyd allanol i'r dynion a'r menywod prysur sydd â'r dasg o redeg dwy ysgol sy'n ymddangos yn wahanol iawn ar y tu allan, ond sydd, yn y bôn, yn ysgolion digon tebyg i'w gilydd.

## Cynhadledd Llywodraethwyr Mawrth 2003

Cynhaliwyd yr ail gynhadledd flynyddol i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar 13 a 14 Mawrth 2003. Trefnwyd y Gynhadledd gan y Ganolfan, a bu'n bosibl ei chynnal ar ôl derbyn arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Thema'r Gynhadledd oedd Ydyn ni'n gwneud gwaith da? – hunanwerthuso gan gyrff llywodraethu a chyrff llywodraethu'n gwerthuso eu hysgolion a daeth dros 90 i'r gynhadledd.

Agorodd Susan Lewis, Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru y Gynhadledd, gan sôn am y rôl allweddol sydd gan gyrff llywodraethu wrth fonitro a gwerthuso gwaith ysgolion.

Treuliodd y cynrychiolwyr weddill y prynhawn mewn grwpiau, yn trafod gwerthuso ysgolion a hunanwerthuso gan gyrff llywodraethu.

Ar y diwrnod canlynol, daeth Catherine Burt, ymgynghorydd addysgol, i ddechrau'r dydd gyda chyflwyniad bywiog am bwysigrwydd hunanwerthuso gan gyrff llywodraethu wrth wella cyflawniadau ysgolion. Wedyn cafwyd Fforwm Hawl i Holi a gwahoddwyd cynrychiolwyr i ofyn cwestiynau i'r panel a oedd yn cynnwys Catherine Burt, Cyfarwyddwr Addysg a Phennaeth Ysgol Gyfun.

O'r adborth a dderbyniwyd gennym, mae'n amlwg i'r cynrychiolwyr deimlo bod gynhadledd yn ddiddorol, yn rhoi gwybodaeth ac iddynt ei mwynhau. Mae adroddiad llawn o'r Gynhadledd wedi cael ei gynhyrchu – cysylltwch â'r Ganolfan pe hoffech inni anfon copi ichi. Mae'r adroddiad ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.swan.ac.uk/education/governors/Conferences.htm

## DYDDIAD I'CH DYDDIADUR...

### Dydd Gwener 5 Mawrth 2004

***Cynhadledd Flynyddol i Lywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru Llandrindod***

*Thema: Ble rydyn ni'n mynd?*
*Rôl Llywodraethwyr o ran Cynllunio Strategol a Gosod Targedau*

***Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon drwy law Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr yr AALl – cysylltwch â'r Ganolfan am fwy o fanylion***

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i John Lewis sydd wedi cael anrhydedd MBE am ei wasanaeth i Lywodraethu Ysgolion yn Sir Benfro gan gynnwys ei swydd bresennol, sef Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llandyfái. Mae Mr Lewis wrthi'n ddyfal yn gweithio mewn partneriaeth ag Adran Addysg & Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Penfro i ddatblygu polisi addysgol a dogfennaeth ategol.

# Gwybod am y datblygiadau diweddaraf …

***Mae gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn hanfodol i unrhyw un sy'n ymwneud â byd addysg sy'n newid o hyd. Dyma'r gyntaf o gyfres o golofnau gan Madeleine Rogerson, Uwch Lyfrgellydd yn yr Adran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru Abertawe, a'i fwriad yw bod yn ganllaw byr i'r ddrysfa gymhleth o wybodaeth sydd am fyd addysg.***

## …o ran newyddion y DU …

Mae'r 'Times Educational Supplement' a'r 'Times Higher Education Supplement' yn fannau cychwyn ardderchog i gael y newyddion diweddaraf o fyd addysg. Mae'r ddau'n cael eu cyhoeddi'n ddyddiol ac mae ganddyn nhw wefannau, sef:

TES http://www.tes.co.uk
THES http://www.thes.co.uk

Nodwedd ddefnyddiol ar wefan y TES yw'r gronfa ddata y gellir ei chwilio am ddim sy'n cynnwys straeon newyddion yn mynd yn ôl i fis Hydref 1994.

Bydd papurau newydd, fel y 'Guardian' (yn enwedig yr atodiad addysg sy'n cael ei gyhoeddi bob dydd Mawrth) hefyd yn rhoi gwybodaeth am faterion yn ymwneud â byd addysg.

Mae gwefan newyddion y BBC http://news.bbc.co.uk <http://news.bbc.co.uk/> hefyd yn cynnwys adran addysg ac mae'n cynnwys archif o ddeunydd newyddion i'w chwilio.

## …o ran datganiadau'r llywodraeth i'r wasg …

Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd ac adroddiadau'r llywodraeth yn ymddangos yn y wasg. Yng Nghymru mae penawdau a datganiadau i'r wasg (wedi eu cadw mewn archif ers mis Mehefin 1999) ar gael drwy wefan Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru http://www.learning.wales.gov.uk <http://www.learning.wales.gov.uk/> . Mae gwefan yr Adran Addysg a Sgiliau hefyd yn cynnwys cronfa ddata o hysbysiadau i'r wasg yn http://www.dfes.gov.uk/pns/newslist.cgi

## …o ran newyddion rhyngwladol …

Mae 'Worldwide newspapers' yn cynnig porth i filoedd o erthyglau rhyngwladol yn http://www.worldwidenewspapers.com
Mae adran newyddion Eurydice (http://www.eurydice.org) yn rhoi mynediad i wybodaeth a datganiadau i'r wasg am addysg ac ar lefel Ewropeaidd.

**Defnyddiwch y dolenni sydd yn http://www.bubl.ac.uk/uk/newspapers.htm i gael mynediad i bapurau newydd cenedlaethol a rhyngwladol a ffynonellau newyddion eraill**

# Newyddion Ymchwil

Fel arfer, mae cryn dipyn o weithgarwch yn y maes yma yn y Ganolfan.

Rydym newydd orffen rhan gyntaf ymchwil i gyfraniad cyrff llywodraethu i wella ysgolion, a'r bwriad yw dilyn hyn drwy gasglu enghreifftiau o arfer da y gellid eu rhannu.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu'r Ganolfan yn ddiweddar i wneud ymchwil i ganllawiau hyfforddi i lywodraethwyr ysgolion, a hefyd hyfforddi clercod cyrff llywodraethu.

Yn olaf, mae gwaith ar y gweill i gynhyrchu canllaw i lywodraethwyr ysgolion a rheolwyr ynglŷn â Monitro a Gwerthuso.

**Steve Gullick** *Arweinydd y Prosiect*

## CYSYLLTWCH Â NI …

… pe hoffech fwy o wybodaeth am y Ganolfan a'i gweithgareddau, neu pe hoffech wneud unrhyw sylwadau – byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych.

**Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil**
Adran Addysg, Prifysgol Cymru Abertawe, Hendrefoelan, ABERTAWE SA2 7NB
Rhif Ffôn: 01792 518609 / 518610 Ffacs: 01792 518616
E-bost: S.E.Gullick@swan.ac.uk neu K.J.Evans@swan.ac.uk

www.swan.ac.uk/education/governors

PRIFYSGOL CYMRU ABERTAWE
UNIVERSITY OF WALES SWANSEA
HYDREF 2003 - rhifyn 6

# CADWYN

CANOLFAN RHAGORIAETH YMCHWIL AC HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR CYMRU

## HEB FOD MOR WAHANOL?

### *Y profiad o fod yn llywodraethwr yn un o ysgolion y wladwriaeth ac ysgol annibynnol*

***Ydych chi erioed wedi meddwl tybed sut byddai hi i fod yn llywodraethwr mewn ysgol breswyl annibynnol? Yn yr erthygl hon mae Rob Smith, sydd wedi bod yn llywodraethwr ar ysgol annibynnol ac ysgol y wladwriaeth, yn cymharu'r ddwy rôl.***

Am y 15 mlynedd diwethaf fwy neu lai rwy' wedi bod yn llywodraethwr ar ddwy ysgol sy'n ymddangos yn allanol yn wahanol iawn i'w gilydd – Notley High School, coleg technegol cyfun cymysg 11-16 yn Braintree, Essex, gyda 1,150 o ddisgyblion, a Choleg Framlingham, a fu'n ysgol grant uniongyrchol ac sydd erbyn hyn yn ysgol annibynnol gymysg, breswyl ar y cyfan yn Suffolk. Mae ganddi hefyd ysgol iau, felly mae'n cymryd plant o 3 – 18, ac mae ganddi 750 o ddisgyblion (gan gynnwys yr adran iau).

Newydd ddechrau roedd y chwyldro i gyrff llywodraethu yn ysgolion y wladwriaeth pan ddechreuais yn Notley, ac roedd hi fel petaen ni'n mwy o bwerau a chyfrifoldebau ym mhob cyfarfod. Roedd hyn yn achosi cryn dipyn o ddryswch ar y pryd, gan fod rhaid inni weithio drwy rai sefyllfaoedd anodd iawn, gan ddibynnu ar reddf a lwc gymaint â dim.

Nid fu chwyldro tebyg o ran llywodraethu ysgolion annibynnol, ond mewn gwirionedd mae gofynion y farchnad wedi achosi i rywbeth tebyg ddigwydd – bellach mae'n rhaid i lywodraethwyr fod yn llawer mwy atebol am yr hyn maen nhw'n ei wneud ac o ganlyniad mae'r llywodraethwyr yn Framlingham yn llawer mwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol ac o faterion addysgol yn gyffredinol nag yr oedden nhw pan ddechreuais i.

Felly, er bod y ddwy ysgol yn wahanol iawn, mae llawer o'r problemau'n gyffredin i'r ddwy, ac yn aml mae'r gwahaniaethau'n codi am fod un ysgol yn ysgol breswyl a'r llall yn ysgol ddydd, yn hytrach nag am fod un yn un o ysgolion y wladwriaeth a'r llall yn annibynnol.

Felly beth sy'n debyg ac yn wahanol?

- **Aelodaeth y corff llywodraethu**
  Rhaid i Notley gael nifer benodedig o riant-lywodraethwyr, a llywodraethwyr sy'n athrawon, staff, aelodau o'r awdurdod lleol ac wedi'u cyfethol. Mae hawl gan y Pennaeth fod yn llywodraethwr.

  Mae llawer llai o ofynion penodedig gan gorff llywodraethu Framlingham, ac mewn gwirionedd, yn anaml iawn mae rhieni presennol yn aelodau. Nid oes hawl gan y rhai sy'n gyflogedig gan yr ysgol i fod yn llywodraethwyr oherwydd cyfraith elusen. Mae o leiaf saith llywodraethwr yn cael eu penodi gan gymdeithas y cyn-ddisgyblion.

- **Cyfarfodydd y llywodraethwyr**
  Mae gan y ddwy ysgol un cyfarfod busnes y tymor. Yn Notley mae ail gyfarfod fel arfer lle mae mater addysgol ehangach cyfredol neu fater sy'n arbennig o berthnasol i'r ysgol yn cael ei astudio'n fanwl. Er enghraifft, ym mis Hydref mae canlyniadau TGAU y flwyddyn flaenorol yn cael eu dadansoddi'n drylwyr mewn cyfarfod ar wahân.

- **Pwyllgorau**
  Yn Notley mae pedwar pwyllgor: Cyllid a Safle; Cwricwlwm; Personél a Disgyblion; a Chymuned. Mae pump neu chwe llywodraethwr ym mhob pwyllgor (mae nifer o lywodraethwyr ar fwy nag un pwyllgor) ac maen nhw'n cwrdd unwaith neu ddwy y tymor, gyda'r nos fel arfer.

  Yn Framlingham un pwyllgor yn unig sydd, Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (C&DC). Mae saith llywodraethwr ar y pwyllgor hwn ac mae'n cwrdd ddwywaith y tymor yn ystod y dydd. Mae'r llywodraethwyr hynny yn Framlingham sydd ar y pwyllgor C&DC yn tueddu i wybod cryn dipyn am sut mae'r ysgol yn rhedeg, ond gall y llywodraethwyr eraill nad ydyn nhw'n aelodau deimlo ychydig yn bell ohoni. Yn Notley mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr yn cymryd rhan fwy gweithgar. Ond mae mwy o drosiant llywodraethwyr yn Notley –rhieni'n dod i ddiwedd eu cyfnod penodedig, staff yn symud ymlaen, a phobl yn symud gyda'u swyddi. Mae'r llywodraethwyr yn Framlingham ar y cyfan yn aros ar y bwrdd yn llawer hwy, fel bod profiad y llywodraethwyr gyda'i gilydd o'r ysgol yn fwy mewn rhai ffyrdd, er nad yw'r hyfforddiant sydd ar gael i lywodraethwyr ysgolion annibynnol hanner mor helaeth ag yw yn sector y wladwriaeth, ac felly mae'n debyg nad yw'r wybodaeth am faterion addysgol mor drylwyr.

- **Arian**
  Gallech ddychmygu y byddai'r trafodaethau ynghylch arian yn digwydd ar lefelau cwbl wahanol. Mewn gwirionedd, mae'r lle sydd i symud o ran materion ariannol yn ymddangos yn rhyfeddol o debyg. Ar ôl ichi wneud yn siŵr fod y staff i gyd wedi cael eu talu, ychydig iawn sydd dros ben i wneud yr holl bethau eraill yr hoffech eu gwneud! Mae'n wir yn Notley nad

Parhad drosodd